Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Grŵp Trawsbleidiol

17 Rhagfyr 2014

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

*Mae gennyf rai cwestiynau am y cyfarfod trawsbleidiol ar 18 Tachwedd 2014 gyda Chymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth.*

1. *Pwy oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn (Enwau a phlaid yr Aelodau Cynulliad)?*
2. *Pwy o blith Aelodau'r Cynulliad sy'n aelodau o Gymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth neu grwpiau tebyg?*
3. *Pwy o blith Aelodau'r Cynulliad sydd â thrwydded i saethu adar neu fywyd gwyllt arall?*
4. *A allwch ddarparu copi o gofnodion y cyfarfod rhwng Cymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth a'r grŵp trawsbleidiol ar 18 Tachwedd?*
5. *Rhestrwch Aelodau'r Cynulliad sy'n aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.*
6. *Os y cafodd bwyd a diod eu darparu yn ystod y cyfarfod ar 18 Tachwedd, pwy dalodd amdanynt a beth oedd y costau cysylltiedig?*

Mae fy ymateb fel a ganlyn:

1. *Pwy oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn (Enwau a phlaid yr Aelodau Cynulliad)?*

Andrew RT Davies AC (Ceidwadwyr Cymreig)
Mark Isherwood AC (Ceidwadwyr Cymreig)
Lindsay Whittle AC (Plaid Cymru)
Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru)
Llyr Gruffydd AC (Plaid Cymru)

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email: Buddug.Saer@cynulliad.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

William Powell AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)

I gael rhagor o wybodaeth am y Grwpiau Trawsbleidiol, gallwch gyfeirio at eu rheolau gweithredu. Mae dau ddyfyniad perthnasol wedi'u nodi yn Atodiad 1.

2. *Pwy o blith Aelodau'r Cynulliad sy'n aelodau o Gymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth neu grwpiau tebyg?*

Yn ôl Adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 2 o blith Rheolau Sefydlog y Cynulliad, mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal a chyhoeddi Cofrestr Buddiannau Aelodau'r Cynulliad.

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Cynulliad gofrestru unrhyw fuddiannau perthnasol o fewn wyth wythnos ar ôl cymryd y llw neu gadarnhad a hefyd gofrestru unrhyw newidiadau i'r buddiannau hynny o fewn pedair wythnos.

Gweler Atodiad 2 ar gyfer yr amgylchiadau lle mae'n ofynnol i Aelodau'r Cynulliad gofrestru eu buddiannau.

Os yw bod yn aelod o Gymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth yn dod o fewn y meini prawf hyn, caiff aelodaeth ei chofrestru yma: http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/Assembly%20Member%20section%20documents/Fourth%20Assembly%20Register%202011-2016/Fourth%20Assembly%20Register%20-%2022%20Oct%202014%20-e.pdf

Nid oes unrhyw Aelodau wedi datgan eu bod yn aelodau o Gymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth.

Yn anffodus, ni allaf roi unrhyw wybodaeth am grwpiau "tebyg" heb fanylion pellach ynghylch yr hyn yr ydych yn ei olygu. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am yr holl fuddiannau a gofrestrwyd ar y gofrestr.

3. *Pwy o blith Aelodau'r Cynulliad sydd â thrwydded i saethu adar neu fywyd gwyllt arall?*

Nid oes gennym yr wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani.

4. *A allwch ddarparu copi o gofnodion y cyfarfod rhwng Cymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth a'r grŵp trawsbleidiol ar 18 Tachwedd?*

Mae gan y Grwpiau Trawsbleidiol bedair wythnos i gynhyrchu a chyhoeddi eu cofnodion. Gweler Atodiad 1 ar gyfer y dyfyniad perthnasol o'r rheolau.

Bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen a ganlyn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgListOutsideBodies.aspx?bcr=1&$LO$=1

Oherwydd y bydd yr wybodaeth rydych yn gofyn amdani yn cael ei chyhoeddi maes o law, ni fyddwn yn darparu'r wybodaeth yn awr gan y bydd modd i chi ei gweld pan gaiff ei chyhoeddi. Mae'r rhesymau dros beidio â darparu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd wedi eu hesbonio yn Adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Atodiad 3.

5. *Rhestrwch Aelodau'r Cynulliad sy'n aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.*

Mae'r wybodaeth hon ar gael yma: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=158

6. *Os y cafodd bwyd a diod eu darparu yn ystod y cyfarfod ar 18 Tachwedd, pwy dalodd amdanynt a beth oedd y costau cysylltiedig?*

Nid oes gennym yr wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad 1**

Mae'r dyfyniad hwn wedi'i gymryd o'r rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol:

*5. Cofrestru*

*Ar ôl cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol neu ethol deiliaid swyddi drwy ddull arall, dylai grwpiau trawsbleidiol gael eu cofrestru drwy ddefnyddio'r ffurflen gofrestru briodol. Rhaid i'r ffurflen gofrestru gael ei llofnodi gan Gadeirydd y grŵp, a rhaid iddo gynnwys rhestr o'r aelodau, gan gynnwys enw o leiaf dau Aelod arall o ddau grŵp plaid arall yn y Cynulliad, ac enwau holl aelodau'r grŵp nad ydynt yn Aelodau Cynulliad.*

*Bydd y manylion ar y ffurflenni cofrestru yn cael eu cyhoeddi gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad ar adran y grŵp trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Cynulliad.*

*Bydd disgwyl i grwpiau trawsbleidiol sydd eisoes yn bodoli yn y Cynulliad gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol o fewn 12 mis i'r dyddiad y daeth y rheolau hyn i rym. Bydd disgwyl i unrhyw grwpiau a gaiff eu cofrestru ar ôl y dyddiad hwn gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol o fewn 12 mis i'r dyddiad y cawsant eu cofrestru.*

*14. Cofnodion Cyfarfodydd*

*Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion pob cyfarfod o'r grŵp yn cael eu rhoi i swyddog perthnasol Comisiwn y Cynulliad o fewn pedair wythnos i gynnal y cyfarfod. Rhaid i'r cofnodion gynnwys manylion am leoliad y cyfarfod, pwy oedd yn bresennol, gan gynnwys enwau a theitlau deiliaid swyddi'r grŵp fel y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd, enwau Aelodau'r grŵp ac ymwelwyr neu westeion allanol, a disgrifiad cryno o'r materion a drafodwyd. Bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar adran y grŵp trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Cynulliad.*

**Atodiad 2**

Mae'r dyfyniad hwn wedi ei gymryd o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 o blith Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

**Y Buddiannau Cofrestradwy**

5. Dyma'r buddiannau cofrestradwy:

(i) swyddi cyfarwyddwyr am dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu gan unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, mewn cwmnïau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr na thelir cyflog iddynt yn unigol ond lle telir cyflog drwy gwmni arall yn yr un grŵp;

(ii) cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio aelodaeth o'r Cynulliad) y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt;

(iii) enwau cleientiaid pan fydd y buddiannau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (i) a (ii) uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu gan unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod sy'n hŷn nag un ar bymtheng mlwydd oed, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Cynulliad, neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd;

(iv) rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol y mae eu gwerth yn uwch na'r hyn a ragnodir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, sefydliad neu berson ac sy'n deillio o aelodaeth o'r Cynulliad neu'n sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd;

(v) unrhyw dâl neu fudd materol arall y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod yn ei gael oddi wrth unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda'r Cynulliad, neu sy'n meddu ar gontract o'r fath;

(vi) nawdd ariannol (a) fel ymgeisydd i'w ethol i'r Cynulliad, pan fydd y nawdd mewn unrhyw achos, hyd y gŵyr yr Aelod, yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd, neu (b) fel Aelod o'r Cynulliad oddi wrth unrhyw unigolyn neu sefydliad. Wrth gofrestru buddiant o'r fath, rhaid i'r Aelod ddatgan a yw unrhyw nawdd o'r fath yn cynnwys unrhyw daliad i'r Aelod neu unrhyw fudd materol neu fantais faterol;

(vii) yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, ymweliadau tramor a wneir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Cynulliad neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd pan na fydd cost unrhyw ymweliad o'r fath wedi'i dalu'n llwyr gan yr Aelod neu ag arian a ddarparwyd gan y Cynulliad neu gan Senedd y Deyrnas Unedig neu unrhyw sefydliad y mae'r Cynulliad yn aelod ohono;

(viii) unrhyw dir ac eiddo i'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, tir neu eiddo i bartner yr Aelod neu i unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y'i rhagnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad neu y ceir incwm sylweddol ohono, ac eithrio unrhyw gartref a ddefnyddir at ddibenion preswylfa bersonol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod;

(ix) enwau cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant llesiannol ynddynt, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod fuddiant llesiannol ynddynt, mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn fwy nag un y cant o'r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu'n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a ragnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad;

(x) aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu'n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu'n rhannol â chyllid a ddarparwyd gan y Cynulliad.

**Atodiad 3**

**Adran 22:**
Mae adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn darparu bod:
*(1) Gwybodaeth yn wybodaeth wedi'i heithrio:*

> *(a) os yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan yr awdurdod cyhoeddus gyda'r bwriad o'i chyhoeddi, gan yr awdurdod neu gan berson arall, rywbryd yn y dyfodol (p'un a yw'r dyddiad wedi'i bennu ai peidio);*
> *(b) os oedd y wybodaeth yn cael ei chadw eisoes gyda'r bwriad o'i chyhoeddi pan wnaed y cais am ei gweld, a*
> *(c) os yw'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i beidio â rhyddhau'r wybodaeth tan y dyddiad a nodir ym mharagraff (a).*

Mae adran 22 yn eithriad amodol a, chan hynny, mae angen ystyried prawf o fudd cyhoeddus.

Mae'r prawf hwn yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried a yw budd y cyhoedd sydd ynghlwm wrth beidio â datgelu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd yn gorbwyso'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth.

Mae rheolau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol yn gofyn bod '*cofnodion pob cyfarfod o'r grŵp yn cael eu rhoi i swyddog perthnasol Comisiwn y Cynulliad o fewn pedair wythnos i gynnal y cyfarfod.   Bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar adran y grŵp trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Cynulliad.'*

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgOutsideBodyDetails.aspx?ID=388

Gan ei bod yn arfer gennym i gyhoeddi'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani o fewn cyfnod mor fyr â hyn (sef pedair wythnos), ni allwn weld unrhyw y byddai unrhyw lles i'r cyhoedd pe byddwn yn gwyro oddi wrth y trefniadau hyn.

Gyda hynny, rydym o'r farn nad yw'r budd cyhoeddus a fyddai ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth hon yn gynt nag arfer yn gorbwyso'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth gadw at y trefniadau uchod.